

# Gwobr Goffa Eirian Llwyd

## Canllawiau Medi 2024

## Cynnwys


Hygyrchedd 2

1. Beth yw ei nôd? 3

2. Am beth y bydd yn talu? 3

3. Pwy sy'n gallu enwebu? 3

4. Beth yw'r meini prawf cymhwysedd? 3

5. Beth yw'r meini prawf asesu? 4

6. Sut y gwneir y penderfyniadau? 4

7. Deunydd enwebu 4

8. Sut i ymgeisio 4

9. Dyddiadau Pwysig 5

10. Angen cysylltu? 5


hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

## Hygyrchedd

Ym Mhlas Glyn-y-Weddw, rydym ni'n darparu gwybodaeth mewn print bras, testun hawdd ei ddeall ac Arwyddeg. Ceisiwn hefyd gynnig gwybodaeth mewn braille, sain ac ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg neu'r Saesneg ar gais.

Os oes gennych unrhyw anghenion hygyrchedd ac yn ystyried ymgeisio, gallwn eich cefnogi yn ystod y broses. Cysylltwch â ni: post@oriel.org.uk i drafod sut.

Rydym yn gweithredu polisi cyfle cyfartal ym Mhlas Glyn-y-Weddw.

# Gwobr Goffa Eirian Llwyd

## 1. Beth yw ei nôd?

Roedd Eirian Llwyd yn creu printiau nodedig iawn. Hi oedd sylfaenydd Y Lle Print Gwreiddiol. Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Goffa yn ei henw i gynnig gwobrau ariannol i artistiaid newydd sydd yn gwneud enwau iddynt eu hunain yn y maes gwneud printiadau.

Gyda chymorth yr Ymddiriedolaeth, hoffem gynnig gwobr i un artist bob blwyddyn. Caiff yr enillydd hyd at £5,000 eleni i nodi 10 mlynedd o'r wobr.

Caiff curaduron oriel a chanolfanau argraffu yng Nghymru y cyfle i enwebu artist argraffu ymroddgar a thalentog a fyddai'n elwa o'r cyfle. Eleni am y tro cyntaf, caiff artist argraffu enwebu eu hunain ar gyfer y wobr, yn ddibynnol ar gyflwyno portffolio o'u gwaith a chael geirda gan guradur neu debyg.

Croesawn yn arbennig enwebiadau i gefnogi argraffwyr o gefndiroedd a dangynrychiolir. Gall hyn olygu pobl sy'n wynebu rhwystrau i gyfleoedd oherwydd eu rhywioldeb, eu hethnigrwydd, eu cefndir cymdeithasol ac economaidd neu anabledd.

## 2. Beth fydd y Wobr yn talu amdano?

Bwriad yr arian yw galluogi'r artist i ddatblygu a pharhau i wneud gwaith argraffu, er enghraifft: prynu offer argraffu, cynnal sioe unigol, preswyliad argraffu / creadigol neu gael cyfle mentora gan rywun mwy profiadol.

## 3. Pwy sy'n gallu enwebu?

Curadur oriel neu ganolfan argraffu yng Nghymru sy'n cynnig aelodaeth ac yn darparu cyfleusterau argraffu i artistiaid yng Nghymru.

Gall oriel neu ganolfan argraffu enwebu hyd at ddau artist.

Eleni am y tro cyntaf, caiff artist argraffu enwebu eu hunain ar gyfer y wobr, yn ddibynnol ar gyflwyno portffolio o'u gwaith a chael geirda gan guradur neu debyg.

## 4. Beth yw'r meini prawf cymhwysedd?

Rhaid i'r artist sydd wedi ei enwebu fod:

- yn artist sy'n byw yng Nghymru
- wrthi'n sefydlu eu hymarfer argraffu neu'n artist sydd wedi dechrau arbrofi yn y maes
- yn ymrwymedig i barhau â'i ymarfer yng Nghymru

## 5. Beth yw'r meini prawf asesu?

- tystiolaeth o dalent yr artist yn ei faes
- Ymroddiad yr artist i argraffu yn ei ymarfer presennol
- Ymrwymiad yr artist i barhau â'i ymarfer yng Nghymru

## 6. Sut y gwneir y penderfyniadau?

Bydd y penderfyniad yn cael ei wneud gan banel dethol sy'n cynnwys Curadur a Swyddog Ymgysylltu Plas Glyn-y-Weddw, swyddogion Cyngor Celfyddydau Cymru a chydweithiwr sydd ag arbenigedd yn y celfyddydau gweledol gan gynnwys argraffu.

Byddwn yn hysbysu'r holl enwebeion a'r artist llwyddiannus.

## 7. Deunydd enwebu / ymgeisio

Rhaid darparu tystiolaeth o waith yr artist gan gynnwys:

- enw a chyfeiriad e-bost yr artist
- datganiad (500 gair ar y mwyaf) i esbonio eich rhesymau dros enwebu
- Curriculum Vitae (CV)  a Datganiad Artist
- 6-8 llun o'i gwaith diweddar neu 5 munud o ffilm/perfformiad. Os oes dolenni â chyfrinair, rhowch wybod am y cyfrinair
- Os yn ymgeisio eich hunain, rhai cynnwys geirda gan guradur neu debyg, neu o leiaf cynnwys eu gwybodaeth cyswllt i gysylltu am eirda.

Rhowch y cyfan mewn ffeil (Word neu pdf). Ni ddylai'r ffont fod yn llai na 12 pwynt na'r ffeil yn fwy na 250MB.

## 8. Sut i ymgeisio

E-bostiwch ni gan atodi'r wybodaeth angenrheidiol (gweler adran 7).

Mae gwybodaeth bellach a manylion cyswllt ar ein gwefan: https://www.oriel.org.uk/cy/be-sy-ymlaen? -  cliciwch ar 'Arall' ac yna 'Gwobr Goffa Eirian Llwyd 2025'.

## 9. Dyddiadau pwysig

Dyddiad cau derbyn ceisiadau: **13 Tachwedd 2024**

Derbyn canlyniadau y dethol rhestr fer: **Diwedd Tachwedd 2024**

Cyhoeddiad ennillydd Gwobr Goffa Eirian Llwyd ac agoriad yr arddangosfa argraffu ym Mhlas Glyn-y-Weddw: **02 Chwefror 2025**

Cyfnod arddangosfa Gwobr Goffa Eirian Llwyd ac argraffu ym Mhlas Glyn-y-Weddw:

**02 Chwefror - 16 Mawrth 2025**

Dyddiad Symposiwm Argraffu ym Mhlas Glyn-y-Weddw: **Dydd Sul 09 Mawrth 2025**

## 10. Angen cysylltu?

I gael rhagor o gyngor neu gymorth gyda phroblemau technegol, cysylltwch â'r tîm ar: post@oriel.org.uk neu:

Ffôn: 01758 740 763

10:00yb - 5:00yh yn ddyddiol

X(Trydar): @plasglyn

Instagram: @plasglyyweddw

Facebook: Oriel Plas Glyn-y-Weddw

Gwefan: www.oriel.org.uk